

<b>Teitl y swydd</b>	<b>Tywysydd Teithiau</b>		
<b>Teulu'r swydd</b>	<b>Marchnata a Chynulleidfaoedd</b>	<b>Band</b>	<b>A</b>

### Pwrpas y swydd

Sicrhau profiad dymunol, difyr a llawn gwybodaeth i'r holl ymwelwyr gan weithredu fel llysgennad ar ran y BBC. Rhoi'r wybodaeth gywir i ymwelwyr, cyflwyno i amrywiaeth o gynulleidfaoedd a sicrhau amgylchedd diogel wrth weithio fel rhan o dîm.

<b>Is-adran</b>	Digidol a Marchnata, BBC Cymru Wales
<b>Yn atebol i (teitl)</b>	Rheolwyr Ymgysylltu â'r Cyhoedd, BBC Cymru Wales
<b>Lleoliad</b>	Caerdydd - 3 Sgwâr Canolog

### Strwythur y sefydliad

Byddwch yn gweithio yn y tîm Ymgysylltu â'r Cyhoedd, yn rhan o'r tîm Digidol a Marchnata ehangach. Mae'r swydd hon yn hanfodol i lwyddiant profiad yr ymwelwyr a bydd yn cyfrannu'n sylweddol at ymgysylltu mwy â'r cyhoedd yn y Sgwâr Canolog.

Bydd y teithiau'n cael eu cynnal bob dydd drwy gydol y flwyddyn gan gynnwys penwythnosau, gwyliau cyhoeddus ac yn ystod gwyliau ysgol.

Rydym yn awyddus i benodi tîm o Dywyswyr Teithiau i weithio yn BBC Cymru Wales, y Sgwâr Canolog. Contract 12 mis cyfnod penodol ydy hwn. Oherwydd gofynion Teithiau'r BBC, dyma gyfle rhan-amser i weithio o leiaf 12 awr y MIS a fydd yn cynnwys penwythnosau, gwyliau cyhoeddus a gwyliau ysgol. Gan fod y shifftiau'n amrywio, mae hyblygrwydd yn allweddol.

Sylwch, bydd rhaid i chi gael gwiriad DBS ar gyfer y swydd hon.

### Cyfrifoldebau ac atebolrwydd ychwanegol sy'n benodol i'r swydd

- Sicrhau bod y teithiau'n cael eu trefnu'n iawn i groesawu ymwelwyr a sicrhau eu bod nhw'n cael eu cau'n llawn ar ddiwedd y diwrnod gwaith hefyd.
- Cwrdd a chrosawu ein holl ymwelwyr, eu cofrestru ar gyfer teithiau ac yna rhoi taith 90 munud wedi'i sgriptio sy'n ddifyr ac yn rhyngweithiol.
- Datrys problemau i sicrhau bod y teithiau'n rhedeg yn iawn yn ystod oriau agor.
- Delio â materion gwasanaeth cwsmeriaid yn briodol ac yn effeithiol, mewn ffordd gyfeillgar a phroffesiynol.
- Cyflwyno adroddiadau dyddiol i helpu i olrhain ein llwyddiannau ac i gofnodi unrhyw faterion, ac er mwyn rhoi unrhyw adborth i'r tîm Ymgysylltu â'r Cyhoedd.
- Sicrhau iechyd a diogelwch yr ymwelwyr bob amser.
- Bod yn ymwybodol o wybodaeth benodol am y BBC a BBC Cymru, a'r daith ei hun - amseroedd rhedeg, cyfleusterau, gweithdrefnau argyfwng ac ati.
- Cefnogi gweithdai a theithiau dysgu ysgolion.
- Gweithio yn nigwyddiadau eraill y BBC gan gynnwys digwyddiadau llogi corfforaethol a phreifat.

- Mae'n debygol y bydd disgwyl i chi weithio gyda phlant neu bobl ifanc, ac yn unol â Pholisi Amddiffyn Plant y BBC. Bydd unrhyw gynnig am swydd yn amodol ar gael archwiliad boddhaol Datgelu a Gwahardd (DBS) neu archwiliad Amddiffyn Grwpiau Agored i Niwed (PVG).

**HYFFORDDIANT**

- Bydd rhaid i'r ymgeiswyr llwyddiannus fod ar gael i ddilyn hyfforddiant gorfodol rhwng dydd Llun 20 Ebrill a dydd Gwener 01 Mai 2020 (heb gynnwys penwythnosau).
- Yna bydd eich shifft gyntaf yn ystod yr wythnosau yn syth ar ôl yr hyfforddiant.

**Prif gyfrifoldebau ac atebolrwydd**

- Gweithio fel rhan o'r tîm Teithiau, gan geisio helpu i wella'r busnes.
- Cynnal teithiau o amgylch adeiladau'r BBC, gan ddangos sgiliau gofal cwsmeriaid da bob amser.
- Rhoi profiad proffesiynol ac o ansawdd i'n holl ymwelwyr yn unol â gweithdrefnau iechyd a diogelwch, diogelwch cyffredinol a gweithredol.
- Cynnal amgylchedd gweithio diogel yn unol â chanllawiau iechyd, diogelwch eiddo a diogelwch personol.
- Sicrhau bod gennych yr wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw ddatblygiadau newydd gan y BBC er mwyn gallu darparu gwybodaeth gyfredol a chywir i'r ymwelwyr.
- Gweithredu fel ffynhonnell gwybodaeth i'n hymwelwyr gan ddangos gwybodaeth am y BBC, yn arbennig am ei hanes a'i raglenni.
- Bod yn llais y BBC i ystod eang iawn o ymwelwyr sy'n adlewyrchu cynulleidfâ'r BBC ee Aelodau Seneddol, ymwelwyr tramor a phlant.
- Cynnal delwedd broffesiynol a gwisgo dillad brand y BBC (a ddarperir gan y BBC) bob amser yn unol â pholisi gwisg yr adran.
- Rheoli llif yr ymwelwyr drwy holl adeiladau'r BBC i sicrhau na fyddant yn amharu ar staff y BBC.
- Cwrdd â'r ymwelwyr a'u cyfarch cyn y daith yn unol â pholisi'r adran.
- Teithiau BBC yw'r gwsteiwr ac sy'n gyfrifol am wneud yn siŵr bod trefniadau mewn lle i sicrhau bod gwsteion y teithiau'n gadael yr adeilad yn ddiogel os bydd argyfwng – mae hyn yn cynnwys gwsteion sydd ag anghenion mynediad. Fel rhan o'r trefniadau hynny, mae'n rhaid i Dywyswyr y Teithiau ymgymryd â hyfforddiant ynghylch helpu pobl sydd ag anghenion mynediad i adael adeiladau mewn argyfwng cyn arwain eu taith gyntaf. Mae hyn er mwyn sicrhau os bydd argyfwng, y gallant helpu ymwelwyr sydd ag anghenion mynediad i adael adeiladau'r BBC yn ddiogel.
- Bod yn barod i ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant datblygu a allai eich helpu chi i wella eich gwybodaeth am y BBC a/neu sgiliau tywys.
- Cynnal a meithrin perthnasau â rhanddeiliaid y BBC.
- Hyblygrwydd i weithio yn ystod yr wythnos, gwyliau banc, penwythnosau a gyda'r nosau pan fo angen.
- Hyrwyddo ymgyrchoedd marchnata'r BBC fel rhan o'r daith.

**Gwybodaeth, sgiliau, hyfforddiant a phrofiad****Hanfodol**

- Agwedd sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid.
- Gallu rhyngweithio ag amrywiaeth eang o ddiwylliannau, demograffeg a phersonoliaethau.
- Gallu gweithio ar eich liwt eich hun a gyda phobl eraill fel rhan o dîm.
- Sgiliau cyflwyno da.
- Gallu dysgu'n gyflym a pharodrwydd i gael eich datblygu ym mhob rhan o'r busnes.
- Gallu addasu i newidiadau a allai godi mewn adeilad gweithio prysur.
- Profiad o weithio mewn amgylchedd sy'n delio â chwsmeriaid, gyda sgiliau gwasanaeth cwsmeriaid da.

**Dymunol**

- Profiad o weithio gyda phlant.
- Diddordeb yn allbwn cenedlaethol a rhyngwladol gwasanaethau newyddion y BBC
- Profiad fel tywysydd teithiau, cyflwynydd neu actor.

*Mae'r disgrifiad swydd hwn yn ddatganiad ysgrifenedig o nodweddion hanfodol y swydd, gyda'i phrif gyfrifoldebau, ac mae'n cynnwys cofnod o'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad sy'n ofynnol ar gyfer perfformio i lefel foddfaol. Nid rhoi cofnod cyflawn, manwl o bob agwedd ar y dyletswyddau sy'n rhan o'r swydd yw'r bwriad.*